# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK - County Hall, The Rhadyr, Usk on Dydd Iau, 10fed Hydref, 2019 at 10.00 am**

| Councillors Present | Officers in Attendance |
|---|---|
| County Councillor P.Pavia (Chairman)<br><br>County Councillors: D. Blakebrough, J.Becker, A.Davies, D. Dovey, R.Roden and A. Webb<br><br>Also in attendance County Councillor A. Webb | Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu<br>Matthew Lewis (Countryside), Arweinydd Interim Perfformiad, Gwerthuso a Datblygu Rhaglen BywydMynwy<br>Amy Longford, Rheolwr Treftadaeth<br>Rachael Rogers, Rheolwr Amgueddfeydd Sir Fynwy<br>Rachel Lewis, Rheolwr Polisi Cynllunio |

**APOLOGIES:** County Councillors D. Evans, M.Feakins and B. Strong

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Ni wnaed unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2. **Nodyn Cyngor Cynllunio, Archeoleg: Craffu cyn penderfynu ar y polisi ar nodi tair Ardal Archeolegol Sensitif newydd**

   **Archwilio'r polisi cyn y penderfyniad ynglŷn â dynodi tair Ardal sy'n Sensitif yn Archeolegol (ASAau)**

   Cyflwynwyd polisi i'r pwyllgor oedd yn cynnig estyniadau i ffiniau Ardaloedd sy'n Sensitif yn Archeolegol (ASAau) cyfredol yn Y Fenni, Trefynwy, Tryleg ac yn cynnig dynodi Ardal sy'n Sensitif yn Archeolegol newydd yn Nhyndyrn. Clywodd aelodau taw Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg a Gwent (YAMG) yw cynghorydd archeolegol y cyngor a taw ystyriaeth berthnasol yw cadwraeth sy'n ymwneud ac olion archeolegol wrth benderfynu am gais cynllun. Bydd y 'Nodyn Cyngor Cynllunio' yn amlinellu sut y byddai'r Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd trwy ei weithred Rheoli Datblygu.

   **Her:**

   - Sut ydyn ni'n cefnogi ymgeiswyr ar hyn o bryd? A fyddwn yn hyrwyddo'r cyngor hwn i bobl?
     *Ar hyn o bryd, mae'r YAMG yn cynnig cyngor i ymgeiswyr ynglŷn â hyn. Bydd angen i ni ei hyrwyddo trwy'r sianeli cyfrwng cymdeithasol arferol a thrwy benseiri ac asiantiaid.*
   - Pam deimlo'ch chi'r angen i gynhyrchu'r canllawiau? Pa broblemau oeddech chi'n ceisio mynd i'r afael â?
     *Codwyd yr angen am ganllaw yn dilyn profiadau lle bod cyfyngiadau wedi codi'n hwyr yn y broses gynllunio oedd wedi arwain at oblygiadau amser a chost, lle buasai ymgeiswyr wedi manteisio o wybod am gyfyngiadau'n fwy cynnar yn y broses gynllunio. Mae'r arddull sy'n ymwneud â diogelu a rheoli archeoleg wedi bod yn anghyson gyda dryswch cyffredinol ynglŷn â'r lefel o wybodaeth sydd angen ei chyflwyno'n gynnar yn y broses.*
   - A fydd hyn yn cynyddu gwaith arolygu i ymgeiswyr?

*Bydd gwaith arolygu'n cynyddu, ond bydd modd i'r Cyngor rhoi cyfarwyddyd llawer mwy clir i ymgeiswyr a bydd yn gallu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus.*

- A fydd hyn yn cyfyngu datblygu?
  *Nid ydym yn rhagweld y bydd datblygu'n cael ei gyfyngu. Mae'r estyniad arfaethedig i ffin archeolegol Trefynwy'n digwydd gan fod posibilrwydd uchel o ddarganfyddiadau canoloesol – wrth wybod taw ardal hanesyddol yw'r mwyafrif o Drefynwy, nid yw hyn yn debygol o gyfyngu datblygu'n bellach. Yn Nhryleg, mae wedi bod nifer o ddarganfyddiadau ac mae yna lawer i ddysgu ynglŷn â datblygiad Tryleg yn hanesyddol. Serch hynny, nid oes goblygiadau yn ôl datblygu. Nid oedd Tyndyrn wedi'i ddiffinio fel ardal archeolegol ac mae yna ddadleuon cryf y dylai fod. Mae'r ffin o amgylch yr ASA yn Nhyndyrn yn enfawr, ond caiff hyn ei gyfiawnhau oherwydd darganfyddiadau archeolegol yn yr ardal.*
- Pwy fydd yn cael eu hymgynghori ynglŷn â hyn?
  *Bydd Cynghorau Tref a Chymunedol, asiantau a phenseiri yn cael eu hymgynghori a byddwn yn sicrhau ymwybyddiaeth trwy'r wefan, Twitter a Facebook. Bydd pob ymateb yn cael eu dadansoddi, eu hystyried a'u hadrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn.*
- Rydym yn deall yr angen am gydbwysedd, fel ein bod yn diogelu ardaloedd ond ddim yn cyfyngu datblygiad. Ydych chi'n hyderus y gallwch chi gynnig eglurder a thryloywder?
  *Rydym yn teimlo y bydd y cyfarwyddyd yn helpu ymgeiswyr trwy ystyriaeth lawer fwy cynnar yn y broses cynllunio.*
- Pa brosesau yr ydych wedi eu defnyddio i adnabod ardal newydd o amgylch Tyndyrn?
  *Dadansoddodd YAMG gwybodaeth a phenderfynon nhw fod mwy o ddarganfyddiadau i'w gael yn yr ardal hon a nodwyd yn ystod y gwaith yn Nhryleg hefyd bod angen yr estyniadau. Os ydym yn darganfod nad yw'r arolygon yn awgrymu bod angen yr estyniadau, byddwn yn adolygu'r ffiniau.*
- Rydym yn deall sut y mae safleoedd yn cael eu hadnabod, ond os oes ardaloedd lleol sydd heb eu dynodi (er enghraifft, mae yna ardaloedd yn Kingswood yn Nhrefynwy sy'n gysylltiedig â chrochanau ar gyfer ffurfio aur), oes ardaloedd pellach y gellir eu hystyried gan YAMG?
  *Gallwn yn sicr adolygu ardaloedd pellach os oes darganfyddiadau archeolegol.*
- Felly, os yw'r ffiniau'n cael eu hadnabod yn ôl darganfyddiadau ac nid yw darnau o Gas-gwent yn cael eu cynnwys, ydy hyn yn awgrymu nad oes darganfyddiadau, neu efallai nad yw'r wybodaeth o reidrwydd yn gyfredol? A ydych yn ymgysylltu â'r curadur yn Fairfield Mabey?
  Beth am ardaloedd megis Brockweir a Redbrook sydd â hanes llongau hysbys? Ydych chi'n edrych ar ardaloedd rhwng yr aneddiadau?
  *Darlun yw e sydd wedi'i ffurfio dros amser ac mae angen i ni adolygu ardaloedd yn barhaol, ond ein gwybodaeth lan at nawr sydd wedi arwain at ddynodi'r ffiniau hyd yn hyn. Rydym yn ymgysylltu â'r Curadur yn Fairfield Mabey i weld a oes unrhyw wybodaeth y gellir ei gynnig i YAMG y gellir hysbysu adolygiad sy'n ymwneud â chynnwys Mabey Bridge ai peidio. Ynglŷn ag ardaloedd rhwng yr aneddiadau, nid ydym wedi cael yr adnoddau i archwilio'r rheini ac mae yna gyfyngiad ar ba mor bell y gallwn ddynodi, ond byddai dal angen i ni adolygu hyn os fyddai darganfyddiadau pellach yn yr ardaloedd hyn yn cyfiawnhau pwysigrwydd archeolegol uwch.*

**Canlyniad a Chasgliad y Cadeirydd:**

- Rydym wedi archwilio'r rhesymeg dros ddod â'r canllaw ymlaen.
- Rydym yn gwerthfawrogi'r cydbwysedd rhwng diogelu a gwella ein hamgylchedd hanesyddol yn ogystal â pheidio â rhwystro datblygiad neu oedi prosesau cynllunio. Rydym hefyd yn adnabod goblygiadau amser a chost i ymgeiswyr. Rydym wedi archwilio'r rheswm am y ffiniau gwahanol a'r ardaloedd rhwng prif aneddiadau ac rydym yn adnabod y cyfyngiadau ar adnoddau. Rydym wedi ein cysuro gan fod Tyndyrn wedi'i gynnwys yn ôl ei haeddiant ei hun ac rydym yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaed hyd yn hyn.
- Buaswn yn gwerthfawrogi pe bai'r pwyntiau a godwyd gennym yn cael eu cynnwys ac rydym yn cefnogi'r polisi yma'n gyfan gwbl. Rydym yn cynghori eich bod yn ymgynghori ynglŷn â hyn ac yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor gydag ymatebion yr ymgynghoriad.

3. **Adolygiad Amgueddfeydd: Craffu ar y cynnydd o ran cyflwyno'r Blaengynllun Amgueddfeydd yn dilyn yr adolygiad blaenorol. Ystyried y camau gweithredu sy'n weddill yng nghyd-destun newydd MonLife, gan gynnwys materion/camau gweithredu cysylltiedig ag atyniadau mewn perthynas â phrofiad ymwelwyr; marchnata adwerthu a chydlynu digwyddiadau.**

**Adroddiad Perfformiad ynglŷn â darparu Blaengynllun Amgueddfeydd**

Daethpwyd ag adroddiad perfformiad i'r pwyllgor er mwyn archwilio datblygiad y gweithrediadau sydd ar ôl sydd wedi'u hamlinellu yn y Blaengynllun Amgueddfeydd, yn dilyn sefydliad MonLife. Cafodd blaengynllun 2017-22 ei gymeradwyo gan Gabinet ym mis Rhagfyr 2016 a'i hysbysu gan adolygiad y gweithredwyd gan ymgynghorwyr Amion ym Mehefin 2015. Mae cyflwyniad manwl sydd ynghlwm fel **Atodiad A** i'r cofnodion yn amlinellu'r datblygiad sydd wedi'i wneud ar bob un o'r argymhellion a wnaed gan Amion. Trafodir y datblygiadau a wnaed yn erbyn yr argymhellion yn ogystal mewn manyldeb yn atodiadau'r adroddiad perfformiad.

Y dyfodol sydd yn yr arfaeth i'r gwasanaeth yw ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb gynhwysfawr er mwyn egluro'r opsiynau, y costau a'r camau, yn ogystal â'r prosiect Strategaeth Dreftadaeth er mwyn hysbysu cyfleoedd cyllid yn y dyfodol. Mewn trafodaethau â chyllidwyr, cadarnhawyd y bydd angen cwblhau'r 'broses adolygu casgliadau' er mwyn hysbysu unrhyw gais am gyllid yn y dyfodol ar gyfer y siop ganolog. Clywodd Aelodau nad yw costau'r astudiaeth ddichonoldeb yn hysbys ar hyn o bryd ac y bydd angen archwilio unrhyw ffynhonnell cyllid allanol.

**Her:**

- Pam y cymerodd hi gymaint o amser i fynd i'r afael â'r argymhellion ers i Amion gwblhau'r adolygiad yn 2015 a'r adolygiad i'r Cabinet yn 2016? Pam ydych chi'n adolygu hyn nawr?
  *Cafodd y mwyafrif o weithrediadau sylfaenol eu delio â yn 2017. Gweithred yw hon yr amlinellir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac achosodd y gwaith ar y Model Cyflenwi Amgen rhywfaint o oedi. Nawr bod MonLife wedi'i sefydlu, mae'n amser i ni symud ymlaen. Gweithred enfawr oedd y weithred sylfaenol o amgylch adeiladau a'r siop ganolog cafwyd ei sefydlu mewn sefyllfa ariannu eithaf*

*gwahanol. Mae yna gynllun strategol newydd ar gyfer cyllid loteri treftadaeth, sydd wedi gwneud y bidio'n fwy cystadleuol, ac felly rydym wedi torri'r argymhelliad i lawr i brosiectau penodol. Nawr bod amgueddfeydd wedi'u sefydlu o fewn MonLife, nid oes angen iddynt wneud y pethau hyn ar eu pennau eu hun. Y rheswm am rai o'r oedi yw meddwl am y profiad.*

- Pa argymhellion Amion nad ydynt yn cael eu cymryd ymlaen?

  *Roedd rhai o argymhellion Amion yn cynnwys cau rhai amgueddfeydd ac ni chariwyd y rheini ymlaen oherwydd y teimlad oedd ei fod yn bwysig cael presenoldeb ym mhob un o'r 3 dref. Awgrymodd Amion hefyd y gallai rhai arddangosfeydd gweithredu trwy leoliadau nad ydynt yn amgueddfeydd mewn trefi eraill. Serch hynny, archwilion ni'r posibilrwydd o weithio â manwerthwyr er mwyn sefydlu amgueddfeydd bach a phenderfynon ni bod y 4 tref yn unigryw dros ben a thra bod y cyswllt yn bwysig iawn, mae'r stori leol yn bwysig yn ogystal. Yr argymhelliad olaf oedd sefydlu corff datblygu ar wahân cafodd ei ddisodli gan MonLife.*

- Nid oes gan Gil-y-coed, yn wahanol i'r trefi eraill, lleoliad sefydlog i arddangos eu darganfyddiadau ac wrth adnabod nad y castell yw'r lleoliad mwyaf addas i arddangos darnau, mae yna dal gyfle i arddangos casgliad Cil-y-coed ac i adrodd stori Gwastatiroedd Gwent a goresgyniad y Rhufeinwyr ac i ddenu ymwelwyr i'r ardal. A oes gennych unrhyw feddyliau ynglŷn â hyn?

  *Rydym yn adnabod y mater hwn ac o ganlyniad i'r amodau amgylcheddol yr y castell, mae casgliad Cil-y-coed yn y storfa. Ni wyddom yr ateb eto, ond rydym yn adnabod bod rhaid i ni alluogi mynediad i gasgliad Cil-y-coed a byddwn yn gobeithio y bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn cyflwyno dewisiadau y medrir eu hystyried. Mae lawer yn haws adrodd hanes Y Fenni a Chas-gwent gan fod adeiladau yna. Mae'r prosiect Cronfa Loteri Dreftadaeth yn archwilio sut i adrodd stori ardal pan nid oes adeilad gweladwy sy'n dal casgliadau penodol.*

- Rhaid canmol bod y Cyngor yn cadw amgueddfeydd ar agor tra bod cynghorau eraill yn eu cau. Gallwn weld gweithrediadau clir yn y cynllun gweithredu ond, fel pwyllgor archwilio, ein diddordeb yw canlyniadau ac allbynnau. Beth oedd y rheswm am y strategaeth a beth yw'r problemau yr ydym yn ceisio eu datrys? Beth yw ein targed, ein nod? Ai creu incwm yw e? Beth yw goblygiadau cwblhau'r gweithrediadau hyn? Dwi'n pryderu am eglurdeb eich amcanion. Beth yw'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu?

  *Pwyntiau dilys iawn yw'r rhain. Er mwyn sicrhau grant o'r Gronfa Loteri Treftadaeth, roedd angen i ni fod yn glir yn ein rhesymeg. Ymwelon ni ag amgueddfeydd eraill megis Derby er mwyn gweld sut yr ydynt yn cael canlyniadau, felly adeiladu'r 'achos am fuddsoddiad yn y dyfodol' yw ein fframwaith strategaeth a chanlyniadau. Mae'r broses ymgeisio am grant yn ein gorfodi i fod yn glir ynglŷn â'n strategaeth sefydliadol cyn ymgeisio am gyfansymiau sylweddol o arian. Rydym eisiau symud ymlaen â'r prosiect profiad i ymwelwyr ar yn un pryd, sef y rheswm pam yr ydym wedi gwahanu hyn i mewn i brosiectau penodol. Atgyfnerthodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yr angen i ystyried yn ofalus yr hyn yr ydym yn ei wneud a pham. Rydym yn adnabod bod angen i ni ychwanegu gwerth, a cyfle yw hwn yn awr trwy MonLife i ddod â phethau at ei gilydd ac i'r sector cyfan archwilio ei bwrpas.*

- Rydym yn ceisio deall sut y mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at yr economi a datblygu ac rydym yn gwerthfawrogi taw achos o archwilio mwy na nifer yr ymwelwyr yn unig yw hwn. A ydych yn mesuro enillion economaidd?

*Rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o ymwelwyr, ond mae yna becyn cymorth datblygu sy'n archwilio'r cyfraniad i'r economi ac sy'n amcangyfrif yr enillion ar fuddsoddiad i'r economi lleol.*

- Beth yw'r paramedrau allweddol yr ydynt yn eu defnyddio i fesur llwyddiant a methiant gyda'r cyhoedd? Mae yna ddiffyg data rhifiadol megis y nifer o ymwelwyr yn y cynlluniau, felly mae'n anodd i ni benderfynu os ydych chi'n llwyddo ai peidio.
*Nid ydynt wedi cynnwys ein ffigyrau ymwelwyr yn yr adroddiad hwn, mae hwn yn ymddangos yn adroddiad MonLife. Mae'r blaengynllun gwreiddiol yn uchelgeisiol, ond nid oes ganddo lawer o ran mesurau rhifiadol, felly mae angen i ni fynd i'r afael â hwnna nawr. Mae'n anodd mesur bodlondeb ymwelwyr oherwydd rydym yn ymwybodol efallai bod ymwelwyr yn dymuno mwynhau'r profiad mewn ystyr mwy eang (gwagle distaw) yn lle dysgu am hanes lleol yn unig, ond yn sicr mae angen i ni ailadrodd ein harolwg ymwelwyr. Ymchwiliodd y Prosiect Amgueddfa Hapus i mewn i rôl amgueddfeydd mewn perthynas â lles cyffredinol a sut y mae pobl yn teimlo ar ôl ymweld ag amgueddfeydd felly, gan fod hyn yn cael ei archwilio ar lefel genedlaethol, bydd yn ddiddorol tynnu cymariaethau.*
- A ydych yn gwneud unrhyw arbedion?
*Gwnaethon ni arbedion sylweddol trwy'r ailstrwythuro yn 2017, ond nid yw'r blaengynllun wedi'i yrru gan arbedion. Rydym yn ceisio bod yn fwy effeithiol gyda'r cynnig yr ydym yn ei ddarparu ac yn gweithio ar y gweithrediadau gwella.*
- A oes gennym ni berthynas gwaith effeithiol gyda CADW? A oes gennym ni arwyddion yn safleoedd CADW er mwyn dangos atyniadau eraill i ymwelwyr?
*Yn Y Fenni, rydym yn gweithio gyda nhw o ran gofal y castell. Yng Nghas-gwent, mae gennym ni gysylltiadau lleol da gyda staff yn y castell a'r Ganolfan Wybodaeth i Dwristiaid (GWD) ac felly rhywbeth yr ydym wedi trafod â'r GWD yw hyn, gan fod cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr i'r castell i'w cymharu â'r amgueddfa er gwaethaf eu hagosrwydd, felly rydym yn archwilio sut y gallwn annog pobl i wneud yr ail ymweliad yna. Tuedd CADW yw dehongli'r bensaernïaeth, yn hytrach na bywyd y bobl a'r stori a blaenoriaeth CADW yw cynyddu nifer yr ymwelwyr i'w safleoedd, felly'r cwestiwn yw sut y gallwn annog pobl trwy'r GWD bod yna 2 le allweddol i'w ymweld â. Mae'r arwyddion yn glir, ond gallwn archwilio cymelliadau i ymweld ag amryw o atyniadau.*
- Pam y dewisoch chi ddydd Mercher fel y diwrnod cau arfaethedig?
*Edrychon ni am y diwrnod mwyaf tawel dros y safleoedd i gyd ac os dylid eu cau i gyd ar yr un diwrnod a'r teimlad oedd taw hyn oedd y diwrnod mwyaf tawel yn gyffredinol.*
- Mae MonLife yn mynd trwy gyfnod trosglwyddo, gyda meddylfryd mwy masnachol. Mae gennych chi rôl bwysig i chwarae yn hwnna gan fod yr hanes mor bwysig i hunaniaeth Sir Fynwy. Mae gennym ni asedau nad ydym yn eu hyrwyddo'n gywir ac mae angen strategaeth arnom ni o amgylch hynny. Mae yna botensial sylweddol ac mae angen i ni feddwl fel tîm MonLife yn hytrach na gwasanaeth amgueddfeydd – mae angen pecyn neu gynnig cyffredinol arnom ni. A ydych yn cytuno?
*Rydym nawr mewn safle llawer gwell i edrych ar farchnata a brandio ar draws MonLife, addysg, cefn gwlad a rheoli cyrchfannau ac mae nawr cymaint o synergeddau y gallwn ond manteisio ohonynt.*
- Beth yw eich amserlenni?

*Gobeithiwn apwyntio swyddog prosiect yn y flwyddyn newydd, cynorthwyydd adolygu yn Ebrill 2020 a gobeithiwn cwblhau'r prosiect ym mis Gorffennaf 2021.*

- Rhai o adborth ymwelwyr amgueddfa Cas-gwent yw ei bod yn sych ac yn hynafol. A fydd canoli'r staff a'r profiad yn cyflawni unrhyw beth arloesol i ddod â phrofiad llawn ac atyniadol? A allwch roi syniad i ni o sut y gall hyn weithio?
  *Rydym yn archwilio hyn. Mae yna densiwn ynglŷn â sut i adrodd stori leol mewn ffordd hynod ond wedyn i ymgysylltu â'r safleoedd eraill ac mae rhai atyniadau wedi gwneud y camgymeriad o wneud storïau'n rhy debyg, sy'n meddwl bod ymwelwyr yn teimlo eu bod wedi "ymweld ag un, ymweld â phob un", felly cydbwysedd bregus yw hi. Ni fydd yr arian gennym ni i wneud gwaith helaeth ar safleoedd y casgliadau, ond gobeithiwn wneud tipyn o waith gydag arwyddion a'r wybodaeth graidd y gallwch ddisgwyl ei gweld.*
- Rydym yn adnabod bod natur amgueddfeydd wedi newid ac nid oes gennym yr adnoddau i gynnig arddangosiad hynod ryngweithiol, ond a ydym yn bod yn ddigon uchelgeisiol yn gwneud rhywbeth arloesol yn y mannau hynny? Mae gennym ni grwpiau cymunedol sydd â llawer o arbenigedd sydd eisiau cymryd rhan gallent helpu ni i'w wneud yn fwy deinamig, sef cyfle wedi'i wastraffu os nad ydym yn ei groesawi.
  *Tîm bach ydym ni ac rydym wedi cael ein dal yn newid arddangosfeydd dros dro trwy'r amser, felly rydym yn ceisio bod yn realistig a gwyddom fod angen i ni wneud pethau mwy dychmygus a bydd y gwaith treftadaeth yn ein galluogi i feddwl am y storïau yr ydym yn eu hadrodd a'r cymunedau a grwpiau hanes gwahanol y gallwn eu defnyddio i'w hysbysu. Mae angen i ni gamu i ffwrdd o'r felin a meddwl am yr arddangosiadau sydd gennym ni a sut y gallwn eu gwella. Rydym yn manteisio o ddod â staff at ei gilydd i gael persbectif gwahanol.*
- Rydych yn rhedeg adran sydd â diffyg sylweddol. Bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn costio arian, felly oes gennych chi ffigwr ac amserlen fras?
  *Nac oes. Efallai bydd angen cymorth cyllid allanol i'w gwneud. Dymunwn symud ymlaen mor gynted â phosib, o fewn y 12 mis nesaf. Bydd angen i ni ddod â chynllun diwygiedig yn ôl i gabinet ac efallai bydd angen ymgeisio am gyllid.*
- Un ardal sydd heb ei chrybwyll yw defnydd sefydliadau academaidd. Ai'r rheswm nad ydy'r rhain yn cael eu defnyddio yw oherwydd problem adnoddau? A ydych wedi nodi sefydliadau academaidd?
  *Mater o le yw hi. Cawsom ychydig sgyrsiau gyda'r Llynges Frenhinol ym Mhortsmouth ynglŷn â'r Casgliad Nelson a'r Amgueddfa Forwrol, felly gwyddom ble mae'r cysylltiadau hyn, mater o le yw hi yn unig. Mae angen dealltwriaeth fwy clir arnom ni o beth y dymunwn ohono a pha gysylltiadau academaidd buasai'n gywir, a dylai'r gwaith o amgylch y storïau yr hoffwn eu hadrodd ein harwain ynglŷn â hyn.*
- Rydych wedi crybwyll bod MonLife yn datblygu cynllun dysgu a bod gennych chi 6 nod strategol, ond a yw'r rhain wedi'u cymhwyso a'u meintioli yn ôl y modd y byddwch yn eu mesur? Er enghraifft, yn ôl gweithredu o amgylch gweithdai sy'n seiliedig ar sgiliau i oedolion, nid yw hynny wedi symud ymlaen yn Y Fenni neu yng Nghas-gwent. Beth yw'r rheswm am hynny?
  *Rydym yn gweithio ar y 6 nod strategol. Nid ydym o'r farn bod y gwasanaeth amgueddfeydd yn dilyn dysgu ar ei ben ei hun, bydd yn cael ei gydweithredu trwy MonLife.*
- Mae ciosg Canolfan Wybodaeth i Dwristiaid Cas-gwent wedi cael ychydig o welliannau, ond mae yna ymdeimlad o ddiffyg cysyniad masnachol. Mae yna

gyfle enfawr i wneud rhywbeth sylweddol ac i wneud ein cynnig yn atyniadol. A ydych yn edrych ar gynllun i groesffrwythloni'r gweithgareddau rhwng y ciosg a'r amgueddfa er mwyn cynyddu proffidioldeb?
*Ydyn, rydym yn edrych ar yr agweddau masnachol trwy MonLife.*

- A ydych wedi ymgynghori gyda'r cynghorau tref er mwyn gweld os ydynt eisiau buddsoddi fel partner?
*Nid ydym wedi siarad â nhw am y blaengynllun yn benodol, ond byddwn yn ymgysylltu â nhw fel rhan o'r darn treftadaeth mwy eang.*

**Canlyniad a Chasgliad y Cadeirydd:**

- Archwiliodd y pwyllgor elfennau'r adolygiad Amion yn gyfan gwbl, yr amser a gymrwyd o gyhoeddi'r adroddiad Amion i symudiad y gweithrediadau ar hyn o bryd.
- Er mwyn datblygu amgueddfeydd a chynyddu ein holl gynnig twristiaeth, rydym yn cefnogi'r angen i ymgymryd â'r astudiaeth ddichonoldeb. Pan fydd y gost a maint yr astudiaeth ddichonoldeb wedi'u penderfynu a pan fydd gennych argymhellion clir i gymryd ymlaen, rydym yn gofyn eich bod yn dychwelyd i'r pwyllgor. Mae'n angenrheidiol bod y pwyllgor yn gallu mesuro canlyniadau yn nhermau effaith economaidd a gwerth wedi'i ychwanegu i breswylwyr, felly rydym yn gofyn bod yr adroddiadau perfformiad MonLife a'r Pecyn Cymorth Economaidd yn cael eu dosbarthu.
- Mae'n hollbwysig bod mwy o arloesi ac ymgysylltiad â gwirfoddolwyr a chymunedau i wella'r gwasanaeth amgueddfeydd ac rydym yn argymell eich bod yn ymgysylltu â chynghorau trefol a chymunedol ar y cyfle cyntaf er mwyn manteisio'n llawn o unrhyw gyfleoedd i weithio ar y cyd.
- Argymhellir bod dichonoldeb croesfan i gerddwyr o flaen CWD Cas-gwent yn cael ei archwilio.

4. **Blaen-raglen Waith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu**

- Caiff eitemau sydd wedi'u gohirio o'r cyfarfod heddiw eu dilyn a'u rhaglennu
- Bydd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Rheolwr Archwilio'n cwrdd â swyddogion i drafod ehangder archwiliadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r Strategaeth Fuddsoddi.
- Mae'r gweithdy CDLl oedd wedi'i drefnu am y 14eg o Hydref wedi'i ohirio, serch hynny bydd gweithdai sydd wedi'u rhaglennu yn y dyfodol yn parhau fel y cynlluniwyd.

5. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol y'i cynhaliwyd ar y 5ed o Fedi 2019 eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir.

6. <u>I gadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf fel ar y 14eg Tachwedd 2019</u>

**The meeting ended at 12.19 pm**